pp medi 10_Layout 1 07/09/2010 20:17 Page 1

Pris: 50c

# Papur Pawb

Medi 2010 Rhif 361



Clocswyr Tal-y-bont a fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Mwy o'u hanes ar dudalen 4

tud 3 Pobl a Phethe
tud 7-10 Y Sioe
tud 11/12 Ysgolion
tud 16 Capten Cymru

# Gwefan i'r Papur




O ddechrau Medi ymlaen, mae modd i bawb yn yr ardal ac, o ran hynny, o bob rhan o'r byd, fanteisio ar wefan newydd *Papur Pawb*. Mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth am gynnwys y papur a'r ardal mae'n ei gwasanaethu, rhestr o'r rhai sydd wrthi'n cynhyrchu'r papur a sut i gysylltu â hwy, yn ogystal â rhestr o'r siopau sy'n gwerthu'r papur.

Ceir hefyd ychydig o hanes sefydlu'r papur yn 1974 a'i ddatblygiad wedi hynny. Mae'r frawddeg hon yn awgrymu nad yw'r papur wedi gwyro o weledigaeth Gwilym ac Eleri Huws, sylfaenwyr y papur, ynghyd â Robat Gruffudd, Hefin Llwyd a Siôn Myrddin:

*'Gosodwyd patrwm a naws y papur yn y rhifyn cyntaf – stori flaen yn tynnu sylw at ddigwyddiad neu fater llosg lleol; dyddiadur y mis; tudalen Pobl a Phethau yn cofnodi genedigaethau, priodasau, pen-blwyddi arbennig a llwyddiannau unigolion; adroddiadau am weithgareddau sefydliadau a chymdeithasau lleol; colofnau rheolaidd; hanes lleol a chwaraeon ac, yn goron ar y cyfan, digon o luniau.'*

Serch hynny, go brin fod y sylfaenwyr hirben hyn wedi dychmygu yn 1974, y byddai modd gweld copi o *Bapur Pawb* ar sgrin yng nghartrefi pawb yn y byd!

Mae'r wefan yn cynnwys mynediad ar fformat PDF o rai ôl-rifynnau o'r papur, sy'n rhoi cyfle da i'r sawl sydd wedi methu derbyn copi neu wedi'i golli, i weld holl newyddion y blynyddoedd diwethaf. Ar hyn o bryd ceir rhifynnau o Ebrill 2009 ond gobeithir ychwanegu mwy o ôl-rifynnau yn y man. Bydd modd hefyd gweld rhifynnau mwyaf diweddar y papur, ond dim ond deufis ar ôl iddo ymddangos mewn print. Yn sicr gobeithiwn y bydd ein darllenwyr yn parhau i brynu *Papur Pawb* bob mis o'r siopau lleol. 'Does gan *Bapur Pawb* ddim bwriad i beidio argraffu'r papur a defnyddio'r wefan yn unig. Ychwanegiad defnyddiol i wasanaeth y papur yw'r wefan wedi'r cyfan.

Mae Cymdeithas Papur Pawb yn ddiolchgar i Iolo ap Gwynn am greu'r wefan newydd sbon hon, a hynny mewn byr o amser.

Ewch ati i edrych ar wefan *Papur Pawb* – mae'n llawn gwybodaeth! Dyma'r cyfeiriad:

**www.papurpawb.com**



Beca Fleming Jenkins yn edrych yn hapus iawn gyda'r gwpan a enillodd gyda'i hwyaid yn sioe Tal-y-bont.

## Papur Pawb

| | | |
|---|---|---|
| **Golygydd Cyffredinol:** | Geraint Evans<br>Garnwen, Tal-y-bont, Ceredigion.<br>post@garnwen.org.uk | **(01970) 832473** |
| **Tynnu lluniau:** | Cysyllter â golygyddion y mis. | |
| | **GOHEBYDDION LLEOL** | |
| **Bont-goch:** | Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch | **832566** |
| **Parsel Henllys:** | Dilys Morgan, Alltgoch | **832498** |
| **Eglwysfach:** | Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais | **(01654) 781312** |
| **Taliesin:** | Sian Summers, Is Y Coed, Taliesin | **832230** |
| **Tal-y-bont:** | Aileen Williams, Maesmeillion | **832438** |
| | Kathleen Richards, Y Bryn | **832201** |
| **Tre'r Ddôl:** | Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl | **832429** |
| | Janet Evans, Cefngweiriog | **(01654) 781260** |
| **Maes y Deri:** | Eirlys Jones, 91 Maes y Deri | **832483** |
| | **CYMDEITHAS PAPUR PAWB** | |
| **Cadeirydd:** | Geraint Pugh, Dôl Pistyll | **832433** |
| **Is-gadeirydd:** | Arthur Dafis, Murmawr, Tal-y-bont | |
| **Ysgrifennydd:** | Sian Pugh, Dôl Pistyll | **832433** |
| **Trysorydd:** | Gwyn Jenkins, Maes Gwyn, Tal-y-bont | **832560** |
| **Aelodaeth:** | Glenys Edwards, Cartrefle , Tal-y-bont | **832442** |
| **Hysbysebion:** | Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais | **(01654) 781312** |
| **Plygu:** | Gwenllian Parry Jones, Lyn Hammonds | |
| **Dosbarthwyr:** | Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllian Parry-Jones,<br>Bleddyn Huws (Tanysgrifiadau) | |

Cyhoeddir gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth
Cyngor Celfyddydau Cymru - Bwrdd Gorllewin, a Bwrdd yr Iaith Gymraeg


### Casgliad RNLI
Rhwng 9 – 14 Awst, gwnaethpwyd casgliad o dŷ i dŷ yn Nhal-y-bont tuag at yr elusen RNLI. Casglwyd £139.09 yn y pentref a £1,900 yn yr ardal gyfan. Ar ran y RNLI, diolchwn am yr ymateb hael. Mae angen y cymorth yma ar y gwirfoddolwyr sy`n achub bywydau ar y môr. Fel casglwyr, diolchwn hefyd am yr ymateb caredig a dderbynion ni wrth fynd o ddrws i ddrws.
Eirlys Jones, Sadie Jenkins a Myrtle Parker.

### Diolch
Trwy gyfrwng PAPUR PAWB hoffwn ddiolch o galon i bob un a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd wrth drefnu a pharatoi ar gyfer y parti ffarwel ardderchog a gefais ar achlysur fy ymddeoliad o Ysgol Tal-y-bont, ddiwedd tymor yr haf. Diolch diffuant hefyd am y dysteb hael iawn, y gwaith celf, barddoniaeth, anrhegion a chardiau lu a dderbyniais – byddaf yn eu trysori.
Mawr yw fy niolch i`r holl rieni a chyfeillion yr ysgol am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac i`r plant am eu cwmni, ffraethineb a`u cyfeillgarwch.
Pob dymuniad da i`r Prifathro, Llywodraethwyr, staff a disgyblion yr ysgol yn y dyfodol.
Fal Jenkins

### Llwyncelyn, Glandyfi
Ar 29 Awst agorodd Stuart a Joy Neal eu gerddi i godi arian tuag at yr Ystafell Haearn, Eglwysfach. Codwyd £882 ar y diwrnod a £968 gyda raffl. Diolch yn fawr i bawb yn yr ardal sydd wedi cyfrannu.

### Croeso
Croeso i Mr a Mrs Monaghan a`r merched Brauna a Mona sydd newydd symud i fyw i Banc y Felin, Tal-y-bont. Braf clywed fod y merched wedi ymgartrefu`n dda yn Ysgol Tal-y-bont yn barod.

### Cydymdeimlo
Cydymdeimlwn â Mr David Jones a`r teulu, Bryn, Tre`r Ddôl ar farwolaeth ei fam yn ystod yr haf – nain i Elen, Hefin ac Aled.

### 18 Oed
Dathlodd Dewi Jenkins, Tyngraig, Tal-y-bont ei benblwydd yn 18 oed ym mis Awst ac Arwyn Evans, Cefngweiriog a Lowri Hughes, 6 Maes y Felin, Tal-y-bont ddechrau Medi. Yn ystod y mis bydd Lowri Evans, Tanllan, Llangynfelyn, Lefi Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont a Rosie Bailey, Troedrhiwseiri, Bontgoch hefyd yn dathlu eu 18fed penblwyddi yn ogystal. Llongyfarchiadau i chi a dymuniadau gorau i`r dyfodol.

## Dyddiadur

### MEDI
12 **Bethel:** *Gweinidog* **2**
**Nasareth:** *Raymond B. Davies* **10**
**Rehoboth:** *Bugail ( C )* **5**
**Eglwys Dewi Sant:** *C.B.* **2.30**
13 **Llew Du, Tal-y-bont, 7.30** *Clwb Darllen yn trafod `Adennydd Gloyn Byw`*
15 **Neuadd Goffa Tal-y-bont 7.30** *Clwb clocsio i ddechreuwyr-plant uwchradd ac oedolion.*
16 **Neuadd Goffa Sefydliad y Merched** *Cwiltiau - Fiona Wells* **2 o'r gloch**
17 **Llew Du, Tal-y-bont, 8.30** *Clwb Nos Wener – Twm Morys*
19 **Bethel:** *Steffan Jones* **10 o'r gloch**
**Nasareth**
**Rehoboth:** *Parch Judith Morris* **5**
**Eglwys Dewi Sant:** *C. B.* **11**
20 **Neuadd Goffa –** *Noson Agoriadol Merched y Wawr* **7.30**
26 **Bethel:** *Gweinidog* **2 o'r gloch**
**Nasareth:** *Bugail* **5**
**Rehoboth:** *John Hughes* **10**
**Eglwys Dewi Sant:** *Boreuol Weddi* **11**
**Bethesda, Ty Nant:** *Richard Lewis* **3.30**

### HYDREF
3 **Bethel:** *Gwasanaeth Diolchgarwch a Chymun, Delyth Morgan* **10 o'r gloch**
**Nasareth:** *Uno Ym Methel*
**Rehoboth***: Bugail* **5**
**Eglwys Dewi Sant:** *Gosber* **2.30**
10 **Bethel:** *Gwasanaeth Diolchgarwch Undebol* **10 o'r gloch**
**Nazareth a Rehoboth:** *Oedfa'r Ofalaeth*
**Eglwys Dewi Sant**
**Bethesda, Ty Nant:** *Cwrdd Diolchgarwch, Beti Griffiths* **2.00**

**Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Glenys Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont (01970 832442) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.**


Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn
BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD


Golygyddion y rhifyn hwn oedd Gwyn, Fal a Ian
Golygyddion y rhifyn nesaf fydd Gwilym ac Eleri: 01970 832231 gehpengwern@yahoo.co.uk.
Dylai'r deunydd fod yn llaw'r golygyddion erbyn 1 Hydref a bydd y papur ar werth ar 8 Hydref.


CANOLFAN M.O.T. HUW LEWIS M.O.T. CENTRE
Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT
TEIARS HUW LEWIS TYRES
Glanyrafon
Rhodfa'r Parc
Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.
HUWLEWISTYRES.COM
MICHELIN VIKING BFGoodrich KUMHO TYRES
Ffôn 01970 636774

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu
Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol
Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

S. F. BYRNE
Adeiladwr a Saer Maen

Ffôn: 01970 832068
M: 077626 20309
Gwneir pob math o waith

pp medi 10_Layout 1 07/09/2010 20:17 Page 3

**Efeilliaid! Efeilliaid!**
Ganwyd dau bâr o efeilliaid yn Nhal-y-bont o fewn mis i'w gilydd.

Llongyfarchiadau i Tanwen a Malcolm, 1 Stryd Birkenhead, Tal-y-bont ar enedigaethau Cian a Steffan ar 28 Mehefin.

Llongyfarchiadau hefyd i Catrin a Barri, Gwel y Llan, Tal-y-bont ar enedigaethau Osian a Bleddyn ar 29 Gorffennaf.

Dymuniadau gorau i'r ddau deulu a'r rhai bach.

**Brysiwch wella**
Gobeithio bod Eleri James, CwmuDw, Tal-y-bont; Sara Jenkins, Tyngraig, Tal-y-bont a Curigwen Griffiths, Glanleri, Tal-y-bont ill tair yn gwella yn dilyn eu damweiniau yn ddiweddar, ac felly hefyd Brian Gardiner, Bwthyn Lapley, Ffwrnais sydd yn ysbyty Bronglais hefyd yn dilyn damwain.

**Yn yr ysbyty**
Da deall bod Mrs Fanw James Stryd Jams, Tal-y-bont a Rhys Huws, Llwyn Onn, Pentrebach gartre wedi treulio cyfnodau yn ysbyty Bronglais.

**Pasio prawf gyrru**
Da iawn ti, Anna Davies, 104, Maes y Deri, Tal-y-bont ar basio dy brawf gyrru, a hynny ar y cynnig cyntaf.

**Ysgol Sul Bethel**
Mae'r Ysgol Sul wedi ail ddechrau ers gwyliau'r haf. Rydym yn cyfarfod bob Sul rhwng 11.15 a 12.15.

**Bedydd**
Ar Ddydd Sul, 4 Gorffennaf, yn Eglwys St. Pedr, Elerch, gyda'r Parchg Andy Herrick yn gwasanaethu, bedyddiwyd Heti, merch fach Elin a Rhys Williams, Caerfyrddin, wyres i Emyr a Lisa Davies, Llety Ifan-hen, Bont-goch, a chwaer fach i Gruff. Dymuniadau gorau i'r teulu.

**Taith y Tri Pigyn**
Llongyfarchiadau i Jonathan Parker, Glan-rhyd, Bont-goch a'i ffrindiau ar eu llwyddiant yn dringo'r Wyddfa, Scafell Pike a Ben Nevis mewn diwrnod ar 12 Awst eleni. Cyflawnwyd y daith er cof am Martin Morgan, Penrhyn-coch, ac mae'r criw yn agos at gyrraedd eu targed o godi £5000 tuag ar Ambiwlans Awyr Cymru.

Ceir manylion pellach am y daith, a chyfle i gyfrannu ar y wefan ganlynol: www.justgiving.com/wag3peaks

# Pobl a Phethe



Geraint a Sian Pugh, Dôl Pistyll, Tal-y-bont, ar ddydd eu priodas. Priodwyd y ddau yn Eglwys Llanbadarn ar 19 Mehefin ac fe gafwyd y brecwast priodas yng ngwesty`r Conrah. Dymuniadau gorau i chi eich dau a phob hapusrwydd i chi..

**Bedydd**
Mewn gwasanaeth yng Nghapel Bethel, Tal-y-bont, ddydd Sul 29 Awst, dan arweiniad y Parch. Richard Lewis, bedyddiwyd Alffi Huw Lavin Edwards, mab Branwen a Patrick Edwards, Meisgyn, ac ŵyr Eleri a Gwilym Huws, Pengwern, Tal-y-bont.

**Diolch**
Diolch yn fawr i Mai Leeding, Glan Nant, am ei gwasanaeth hir fel gohebydd Tre Taliesin i Papur Pawb. (Y gohebydd newydd yw Siân Saunders, Is-y-coed, ffôn: 832230.)

**Dymuniadau Gorau**
Dymuniadau gorau i Myrna Bailey, Arosfa a Josie Smith, Dyfi Villa, Tre Taliesin sy'n dod dros lawfeddygaeth ar hyn o bryd. Hefyd i Richard Spencer, Tŷ Manceinion, sy'n gwella ar ôl triniaeth yn yr ysbyty yng Nghaerdydd cyn yr haf ac Emrys Humphreys, Llysteg, sydd newydd ddechrau ar driniaeth yn Ysbyty Bronglais. Brysiwch wella bawb!

**Cydymdeimlad**
Rydym yn cydymdeimlo â David Brodie, Tre Taliesin, a gollodd ei fam yn ddiweddar.

**Newid aelwyd**
Rydym yn dymuno pob hapusrwydd i Ann a Wyn Thomas, Cilgant y Coed, Taliesin, yn eu cartref newydd yn Llan-gain, ger Caerfyrddin. Byddwn yn gweld eu heisiau'n fawr.

Pob hwyl hefyd i Russell Riding yn ei dŷ newydd yn y pentref.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau a phob lwc i Isabella Boorman, Bronallt, Taliesin, sydd wedi cael lle ym Mhrifysgol Caerefrog i astudio hanes celf.

**Pasio arholiad**
Llongyfarchiadau i Betsan Siencyn, Tanyrallt, Tal-y-bont ar basio arholiad Gradd 5 gyda chlod, ar y ffliwt. Mae'n amlwg dy fod wedi ymarfer cryn dipyn i gyrraedd y safon uchel yma Betsan. Da iawn ti.

**80 oed**
Llongyfarchiadau a phenblwydd hapus iawn i chi Mr Richard (Dick) Howard, 1, Maes Clettwr, Tre'r Ddol sydd newydd ddathlu ei benblwydd yn 80 oed.

**Penblwyddi arbennig!**
Penblwydd hapus i Mair Nutting, Ty Hen Henllys, a David Jones, Bwlchyddwyallt, Tal-y-bont a ddathlodd penblwyddi arbennig ddechrau Medi - ond gwell peidio datgelu eu hoedran chwaith!

**Dyweddio**
Llongyfarchiadau i Abigail Jones, Blaenddol, Taliesin a John Palser, Caerdydd sydd newydd ddyweddio.

**Cymorth Canser Macmillan**
Yn ystod mis Gorffennaf bu Eirlys Jones, Sadie Jenkins a Tegwen Jones yn casglu tuag at yr elusen yma yng nghymuned Ceulanamaesmawr.

Eleni eto cawsont groeso arbennig gan bawb ac iddynt dderbyn swm anrhydeddus iawn o £333.28 tuag at yr elusen. Diolchir yn wresog iawn i bawb eleni eto am y croeso a'r haelioni.

**Cydymdeimlo**
Yn 90 oed bu farw Evan Richard James (Ianto Pantglas)1 Ffordd y Gogledd, Tre'r Ddôl, yn Ysbyty Bronglais ar 2 Medi.

Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'i wraig Katie, Meirion, Menna, ac Alwyn a'u teuluoedd.

Bydd teyrnged i Mr James yn y rhifyn nesaf o *Papur Pawb.*

**DAWNSIO ALBANAIDD**
yn Yr Ystafell Haearn, Eglwysfach
**Nos Wener, Hydref 1af**
am 8 o'r gloch
£2.50

CROESO CYNNES I BAWB

Y Fframdy
Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf.
Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau.
Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.
Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

pp medi 10_Layout 1 07/09/2010 20:17 Page 4

# 'Steddfod a Sioe

Bu nifer o drigolion yr ardal yn crwydro Cymru ac yn bellach gan ddod â chlod i'r gymuned drwy gystadlu ac ennill gwobrau mewn sioe ac eisteddfod:



*Susan Rowlands gydag un o'r defaid Zwarbles a ddaeth a llwyddiant iddi mewn sioeau amaethyddol*

## Sioeau Amaethyddol

Yn ystod yr haf, bu Susan Rowlands, Erglodd, Taliesin yn teithio ar hyd a lled Cymru a Lloegr gyda'i defaid Zwarbles. Bu'n cystadlu gyda'r defaid mewn amryw o sioeau amaethyddol o Sioe Môn yng Ngogledd Cymru draw i sioe Bath a Gorllewin Lloegr i enwi dim ond dwy. Cafodd cryn lwyddiant yn arddangos y defaid hynod yma ac enillodd nifer fawr o wobrau. Llongyfarchiadau i ti Susan.

## Sioe'r Cardis

Yn Sioe Frenhinol Cymru – sioe'r Cardis - yn Llanelwedd eleni enillodd Enoc a Dewi Jenkins, Tynygraig, Tal-y-bont, gyda'u hwrdd a'u hesbin, yr hwrdd yn ennill y Pencampwriaeth, a'r hesbin yr is-bencampwriaeth yn Adran y Defaid Mynydd Cymreig (Adran Diadell Mynydd). Hwy hefyd ennillodd y tlws grisial am Wobr Goffa Maurice Jones Griffiths, Aberhosan, am y Pencampwr yn yr Adran yma, am yr ail waith yn olynol.

Cafodd Eifion Jenkins, Cerrigcarannau, aelod o Glwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont , hefyd lwyddiant yn y Sioe gan ennill y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth barnu moch.




*Enoc a Dewi Jenkins, Tyngraig, buddugwyr yn y Sioe Fawr*

## Eisteddfod Genedlaethol Blaenau Gwent a'r Cymoedd



*Elen Ebenezer a Medi Fflur a fu'n clocsio gyda'i gilydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol.*

Cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol eleni yng Nglyn Ebwy, ac yno y cafwyd presenoldeb amlwg o Dal-y-bont, yn gystadleuwyr, stondinwraig, tywysydd, bardd a darlithydd.

Roedd Mrs Helen Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont yn tywys ymwelwyr o amgylch y Lle Celf yn rhoi cefndir a hanes y gwaith a oedd yn cael eu harddangos yno (bu hyn o gymorth mawr i'r Golygyddion!).

Yno hefyd yn cystadlu, roedd criw o glocswyr Tal-y-bont. Am wythnosau cyn yr eisteddfod bu swn clecian i'w glywed yn dod o'r Neuadd Goffa wrth i grwp clocsio'r pentre ymarfer eu stepiau i gyfarwyddiadau Alaw Lewis, Y Garth, Tal-y-bont. Bu'r grwp ynghyd â'r ddeuawd Elen a Medi yn cystadlu yn y gystadleuaeth 'Dawns Stepio i Grwpiau'. Bu Medi hefyd yn cystadlu ar y 'Ddawns Stepio Unigol i Ferched'. Ac er na lwyddasant i gyrraedd y llwyfan eleni, roeddynt i gyd yn edrych yn drawiadol yn eu gwisgoedd traddodiadol o frethyn Cymreig.

Os oedd swn clecian i'w glywed yn y Neuadd Goffa, roedd sain llawer mwy soniarus yn dod o 2 Maes y Felin, Tal-y-bont wrth i Sam Ebenezer ymarfer ei lais ar gyfer y cystadlaethau canu unigol. Llwyddodd Sam i ennill yr 2il wobr yn yr 'Unawd i Fechgyn 12 – 16 oed.

Yn y Babell Lên, ar faes yr eisteddfod, traddododd Hywel Griffiths, Y Garth, Tal-y-bont ddarlith yn dwyn y teitl 'A oes yma le i fardd yn y Gymru fodern?'ac yno hefyd y bu Gwenallt Llwyd Ifan yn cystadlu yn Ymryson y Beirdd gan gyrraedd y rownd derfynnol ar y Dydd Gwener.



Catrin Jenkins, Ffwrnais, aelod o gwmni drama Licris Olsorts, gyda'r cwpan a gipiodd am yr actores orau wrth i'r cwmni ennill yr ail wobr yng ngystadleuaeth actio drama fer yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nglyn Ebwy. Llongyfarchiadau i ti Catrin.

## Cymdeithas Papur Pawb

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Papur Pawb ar 15 Mehefin. Diolchodd y Golygydd cyffredinol, Geraint Evans, i bawb fu'n gysylltiedig â'r papur yn ystod y flwyddyn gan nodi'n arbennig Mai Leeding (gohebydd Tre Taliesin) ac Aileen Williams (Ceidwad y Dyddidadur ac Ysgrifennydd Aelodaeth) a oedd wedi nodi eu bwriad i ymddeol o'u dyletswyddau. Yn ei adroddiad ef, mynegodd y Trysorydd, Gwyn Jenkins, ei werthfawrogiad: i Wendy Fuller am ei gwaith yn sicrhau'r taliadau am yr hysbysebion, i Gwenllïan Parry-Jones, Enid Gruffudd a Susan Lewis am eu cymorth yn casglu'r arian gwerthiant ac i Bleddyn Huws am bostio copïau i'r tanysgrifwyr. Adroddodd hefyd fod y sefyllfa ariannol yn sefydlog. Diolchwyd hefyd i Bleddyn Huws am ei waith fel cadeirydd.



# Diwrnod Hwyl

Cynhaliwyd diwrnod hwyl yn Nhal-y-bont ar 26 Mehefin lle daeth aelodau, hyfforddwyr a chefnogwyr o dîmau pêl-droed ieuenctid Tal-y-bont ynghyd i fwynhau ac i godi arian ar gyfer cynnal y clwb.

Cychwynnodd y diwrnod â thwrnament pêl-droed 5 bob ochr, ar ffurf Cwpan y Byd, ar gaeau'r ysgol a thimau cymysg o ran oed a rhyw yn cystadlu am y gorau. 'Yr Iseldiroedd' gipiodd y safle cyntaf. (Aelodau'r tîm: Bari, Gwenno, Iwan, Ian, Jack, a Martin).

Yna ymlaen i ffald Penpompren er mwyn gweld y ras hwyaid ar hyd Afon Ceulan. Daeth y ras i'w therfyn wrth y bont a Sara Murry, Aberaeron yn ennill y wobr gyntaf o £100, Billy Langley, Plas Einion yn ail £50, a Pat Kelly, Llandre yn cipio'r drydedd wobr o £25.

Penllanw'r gweithgareddau oedd noson deuluol wrth y patsyn glas lle cynhaliwyd barbeciw, raffl, cwis a castell bownsio.

Daeth tyrfa gref ynghyd i fwynhau cwmni ei gilydd yn y tywydd braf ac ar ddiwedd y noson roedd y cyfanswm a godwyd wedi cyrraedd dros £2,000.

Roedd llwyddiant y diwrnod yn sicr yn ganlyniad i drefniadau ardderchog y clwb ac i ymroddiad yr aelodau hynny a fu'n paratoi am wythnosau o flaen llaw. Hefyd diolch i'r holl gefnogwyr a'r noddwyr a ddaeth i sicrhau dyfodol llewyrchus i glwb pêl-droed ieuenctid Tal-y-bont.







## Twrnament Pêl-droed Bow Street

Bu 5 o dimau lleol yn cynrychiolu Ieunctid Tal-y-bont yn nhwrnament Pêl-droed Bow Street yn ddiweddar, 2 dîm o'r ysgol gynradd ac 1 tîm dan 13 a 2 dîm dan 15, gêmau 5 a 7 pob ochr. Daeth llu o dimau dros Geredigion i gystadlu gyda 26 o dimau mewn un adran, agos iawn oedd hanes y timau, tîm dan 15 cafodd y llwyddiant mwyaf wrth ddod yn ail yn erbyn Aberaeron yn y ffeinal. Llongyfarchiadau i bob chwaraewr a gymrodd rhan.

pp medi 10_Layout 1 07/09/2010 20:17 Page 6

# Rhydian a ni!



Ar Ddydd Sadwrn y 3ydd o Orffennaf aethom ni i lawr i Aberhonddu i gymeryd rhan yn Nghyngerdd y Porthmon. Yr oedd y gyfres wedi comisiynu Caryl Parry Jones i ysgrifennu cân i Ifan ac 'roedd yn rhaid i gôr o blant ysgolion lleol ei dysgu a'i pherfformio.

Fe fuodd Mrs Fal Jenkins yn mynd drwy'r gân efo ni cwpwl o weithiau yn yr ysgol ac fe fuon am ymarfer efo Greg Roberts, yr arweinydd gwâdd,, yn ysgol Tregaron ar y Nos Fercher.

'Roedd ymarferion efo ni bnawn Dydd Sadwrn yn Neuadd y Farchnad, Aberhonddu ar gyfer y camerau teledu a wedyn cawsom ein tywys gan Alun Saunders o Deledu Telesgop i le cyfagos i gael gorffwys, bwyta a newid.

Am 6yh, yn ôl â ni i'r Neuadd i ymarfer y gân unwaith eto ar gyfer y camerau ac i gael cwrdd a siarad efo Rhydian Roberts o'r X-factor, Catrin Finch ac wrth gwrs sêr y gyfres sef Shan Cothi, John Meredith ac yn fwy pwysig na neb Ifan y Porthmon a Nan y ci!

Roedd y rhaglen yn fyw ar S4C ar y nos Sadwrn ac roedd hi'n 9yh erbyn i ni ganu. Braf oedd siarad efo Caryl Parry Jones ac Ifan ar ddiwedd y rhaglen a chlywed eu bod wedi mwynhau ein canu yn fawr iawn.

Roedd yn brofiad blinedig,, anhygoel a bythgofiadwy!

*Siwan Williams a Geraint Howard*

MID WALES STORAGE

STORFA CANOLBARTH CYMRU

STORFA DODREFN



STORFA FUSNES ARCHIFAU



STORFA I FYFYRWYR



PACEDU



DIOGELWCH BT REDCARE 24 AWR
CCTV
WEDI GYNHESU
CIWBICLAU £10 YR WYTHNOS

www.midwalesstorage.co.uk

Heol Y Doll
Machynlleth
SY20 8BQ

Tel 01654 703592

**Canlyniad BLE YN Y BYD**

Enillydd y gystadleuaeth Ble yn y Byd mis Mehefin oedd – Ianto, Pennant Bontgoch – a'r ateb y bocs ffôn gyferbyn â Chwmere.

Siop y Pethe
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

ANGEN
Anifeiliaid Tew
(i'w lladd mewn
lladd-dy lleol)

Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Capel Bangor 880627

James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU

*Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

CODI TŶ NEU ESTYNIAD?



Iwan Jones, Technegydd Pensaerniol
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
01970 832760

GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON



GERAINT JAMES
Ffôn: 01970 612459 Mob: 07967235687
Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SL

pp medi 10_Layout 1 07/09/2010 20:17 Page 7



# Sioe 2010



Er y cymylau duon uwchben Caeau'r Llew Du, cafwyd diwrnod sych ar gyfer Sioe Tal-y-bont eleni. Ond nid sych oedd y cystadlu, gyda nifer o gystadleuwyr o bell ac agos yn ceisio'u gorau am wobr. Braf oedd gweld cymaint yn cystadlu yn yr adrannau Gwartheg Duon, lle'r oedd pwyntiau cenedlaethol ychwanegol i'w hennill, a bu cystadlu brwd yn adran y Defaid Mynydd, gyda llawer o lwyddiant i ddefaid a hyrddod lleol.

Unwaith eto roedd yn braf iawn gweld Pabell lewyrchus ar y maes, gyda dros 1500 o geisiadau. Er bod y babell yn fwy o faint nag arfer eleni, erbyn i'r beirniaid ddechrau ar eu gwaith am un-ar-ddeg y bore, yr oedd wedi llanw, gyda chynnydd sylweddol mewn nifer o adrannau. Bu'r beirniaid yn brysur yn cloriannu'r ceisiadau, pob un yn canmol nifer y ceisiadau a safon y gwaith.

Diwrnod llwyddiannus eto eleni felly a rhaid cynnig diolch i bawb a fu wrthi'n paratoi mor drylwyr. Mae Pwyllgor y Sioe yn batrwm o effeithlonrwydd ac mae'r ardal yn hynod o ffodus bod cymaint o bobl yn mynd ati'n gydwybodol i drefnu un o sioeau gorau Cymru.

Ceir y canlyniadau lleol isod ac ar dudalen 10

**ANIFEILIAID**

**DA DUON**
**Llo Tarw**
2. Trefor Jones, Cwmcae
**Llo a aned yn 2010**
3. Huw Jones, Llety Cynnes

**Buwch a Llo mewn lloc**
2. Trefor Jones
3. Robert Williams, Penwern

**Tywysydd Ifanc**
Llyr Jones, Llety Cynnes

**DA GODRO**
Enillwyd pob dosbarth gan G & R Watkin, Henllys, Dolybont
Ac hefyd y Bencampwriaeth

**DEFAID MYNYDD**
**Hwrdd Dwy Flwydd +**
1. Teulu Tynygraig
3. Dyfed Evans, Glanrafon
**Hwrdd Blwydd**
1. a 3. Dyfed Evans
**Oen Hwrdd**
2. a 3. Teulu Tyngraig
**Dwy Ddafad Dwy flwydd+**
1. Teulu Tynygraig
2. a 3. Dafydd Jenkins,Tanrallt
**Dwy Ddafad Flwydd**
1. a 3. Dafydd Jenkins
2. Teulu Tynygraig
**Dwy Oen Fenyw**
1. Dafydd Jenkins
2.a 3. Teulu Tynygraig
**Cwpan y Grwp**
1.Teulu Tynygraig
2. Dafydd Jenkins
3. Steffan a Garmon Nutting
**Cwpan Am Bâr o Hyrddod**
1. Dyfed Evans
2. Dafydd Jenkins
3. Steffan a Garmon Nutting
**Pencampwr Teulu Tyngraig**
Cilwobr Dyfed Evans
**Hwrdd Gorau**
Teulu Tynygraig
Cilwobr Dyfed Evans
**Oen Hwrdd**
Cilwobr Teulu Tynygraig

**CHAROLLAIS**
**Hwrdd**
1. Elfed a Ffion Jones, Berthlwyd

**TEXEL**
**Hwrdd**
2. Dewi Jenkins, Tynygraig

**DORSET MOEL A CHORNIOG**
**Oen Hwrdd**
2. Griffiths a Davies, Dolclettwr
**Dafad**
1 Griffiths a Davies
**Dafad Flwydd**
1.a 3.Griffiths a Davies
**Oen Fenyw**
1. Griffiths a Davies
**Oen Fenyw heb ei thocio**
3. Griffiths a Davies
**Grwp o Dri**
1. Griffiths a Davies
**Pencampwr**: Griffiths a Davies

**BRIDIAU PUR ERAILL**
**Hwrdd**
2. Gwion Evans, Tanllan
3. C Swanson, Melindwr
**Oen Hwrdd**
3. Gwion Evans
**Dafad**
2. Gwion Evans
**Dafad Flwydd**
2. Gwion Evans
**Oen Fenyw**
1. Gwion Evans
3. C Swanson

**BRIDIAU PRIN**
**Hwrdd**
2. Elfed a Ffion Jones, Berthlwyd (Defaid Llanwenog)
**Oen Hwrdd**
3. Elfed a Ffion Jones
**Dafad**
1. a 2. Elfed a Ffion Jones
**Dafad Flwydd**
1. a 2. Elfed a Ffion Jones
**Oen Fenyw**
2. Elfed a Ffion Jones

**TYWYSYDD IFANC YN ADRAN Y DEFAID (12-16 OED):** Ffion Jones, Berthlwyd

**WYN TEWION**
**Dan 70 pwys**
2. Teulu Tynant
**Dros 70 pwys**
2. Dylan Morgan , Alltgoch
3. Dewi Jenkins,Tynygraig
**Wyn Mynydd**
2. Teulu Tynant
3. Dewi Jenkins

**CNEIFIO**
**Peiriant Agored**
1. Enoc Jenkins
2. Rhydian Evans
**CffI**
2. Elgan Evans
3. Rhydian Evans
**Gwellaif**
3. Dafydd Jenkins

**CŴN**
**Ci neu ast 6-12 mis**
2. Paul Kelly, Maes-y-deri
3. Sara Jenkins, Tynygraig
**Ci neu ast heblaw ci hela**
1. Melissa Mason, Bontgoch
**Cŵn Defaid**
2. Melissa Mason
**Ci neu ast dros 12 modfedd**
3. Huw Evans, Taliesin
**Dangosydd Gorau Dan 12**
2. Teleri Mair Morgan, Dole
**Dangosydd Gorau Dros 12**
2. Huw Evans
**Ci Anwes**
2. Gwydion James, Cerrigcyrranau Isaf
3. Eleri Jones
**Ci'n ysgwyd ei gynffon**
2. Dafydd Williams
**Mwngrel neu groes frid gorau**
1. Joy Harries, Pentrebach

**DOFEDNOD**
**Ieir**
**Unrhyw croesfrid**
2. Richard Bailey, Troedrhiwseiri
3. Gwenno Evans,Tanllan
**Hwyaid**
**Brid Ysgafn, Meilart**
2 a 3. Gwenno Evans
**Brid Ysgafn, Hwyaden**
3. Gwenno Evans
**Minatur**
3. Gwenno Evans

**Dosbarth i Blant**
1., 2. a 3. Becca Fleming Jenkins, 12 Dôl Pistyll

**CEFFYLAU**
**Cob adran D, dan gyfrwy**
3. Amanda Binks, Lletyllwyd
**Caseg neu geffyl hela**
2. Caryl Williams, Penrhos
**Merlod Mynydd a Gweundir**
2. Ceri Davies, Rhoslan
**Merlod Mynydd a Gweundir**
2. Amanda Binks
**Dangosydd Ifanc**
1. Megan Davies, Rhoslan
3. Rhys Davies, Rhoslan
**Ffrwyn Arwain**
3. Sheila a Megan Davies
**Addas i Blentyn dan 7oed**
1. Megan Davies
2. Rhys Davies
**Lleol**
1. Catrin Fflur Manley
2. Megan Davies
3. Rhys Davies
**Caseg hesb neu Geffyl**
3. Becca Fleming Jenkins
**Merlen Mynydd Cymreig adran A o dan gyfrwy**
1. Becca Fleming Jenkins

**PRIF ENILLWYR Y SIOE**
**Da Duon:** Ken Ellis, Bryncrug
**Da Biff:** D & L Davies, Trefenter
**Defaid Penfrith:** R Howatson, Dinbych
**Torddu a Balwen:** Meinir Jones, Capel Isaac, Llandeilo
**Torwen:** Myfyr Jones, Eglwysbach
**Jacob:** Mark Wakelin, Llanilar
**Suffolk:** Dafydd Davies, Bethania
**Charollais:** D A Morgan, Cross Inn, Llandysul
**Texel:** Mr Theobald, Penrhyncoch
**Bridiau Pur a Wyn Tewion:** D Evans, Capel Dewi
**Bridiau Prin:** Keith Davies, Felinfach

**Dofednod | Ieir:** Huw Thomas, Aberarth
**Plant:** David Andrew, Pool Quay, Trallwm
**Hwyaid:** Daniel Rees, Tregaron

**Cŵn**
**Dangosydd Gorau dan 12 oed:** Sophie Marrighi, Caerdydd
**Arddagosiad Gorau:** Sally Reading, Pontrhydygroes
**Arddangosiad Gorau:** Rhian Davies, Llanbadarn

**Cneifio**
**Gwellaif:** Glyn Jones, Bala

**Geifr**
**Gafr Odro:** Alison Logan , Llanbedr Pont Steffan
**Gafr Flwydd a Min Gafr:** Aeron Edwards ac Edith Davies, Llanilar

**Ceffylau**
**Pencampwr y Cobiau a'r Sioe:** R Rees, Horeb, Llandysul

**Canlyniadau Rasus Cŵn Sioe Tal-y-bont**
Dosbarth 1. Ras i gŵn defaid
1af Dafydd Jones - Popty
2il Brychan Lewis - Carlo
3ydd Dewi Jenkins - Gwyn

Dosbarth 2. Ras i Ddaeargwn
1af Dewi Jenkins - Tincer



*Betsan Siencyn yn cyflwyno blodau i Dr Myrtle Parker, Llywydd Sioe Tal-y-bont*

2il neb yn deilwng
3ydd neb yn deilwng

Dosbarth 3. Ras i filgwn a chŵn potsiwr
1af Ian McMahan - Zac
2il Llyr James - Boost
3ydd Sam Rowley - Keeva

Dosbarth 4. Ras i filgwn bach
1af Annette Musker - Zeno
2il Annette Musker - Queezle
3ydd Sandra Gorman - Mari

Dosbarth 5. Ras i unrhyw frid arall - coes byr
1af Anna Sistern - Finn
2il Dewi Jenkins - Cadi
3ydd Alan Hale - Madge

Dosbarth 6. Ras i unrhyw frid arall - coes hir
1af Katy Prickett - Mole
2il Dewi Jenkins - Guto
3ydd Andy Bakewell - Sam

Dosbarth 7. Ras i ferched a'i cŵn
1af Eiry Bonner - Meg
2il Pip Williamson - Sadie
3ydd Amanda Binks - Menna

Dosbarth 8. Ras i ddynion a'i ŵn
1af Dewi Jenkins - Gwyn
2il Ceredig Lewis - Carlo
3ydd John Williams - Lunar

Dosbarth 9. Ras i blant ysgol gynradd a'i cŵn
1af Sion Manley - Inca
2il Gemma Burnham - Rosie
3ydd Bedwyr Jenkins - Gwenno

Dosbarth 10. Ras i blant ysgol uwchradd a'i cŵn
1af Richard Bailey - Nel
2il Gwenno Evans - Jack
3ydd Tomos Wyn - Inca

**Y BABELL**

**CYNNYRCH FFERM**
**Belen o Wair Dôl**
1. a 2. Teulu Tanyrallt
3. David nutting, Tyhen Henllys
**Belen o wair hadau:**
2. D.R.O.Jones, Berthlwyd

**CYNNYRCH GARDD**
**6 sialotsyn gwyn**
2. Nick Bryan
**Sypyn o domatos**
3. D R O Jones

Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

K Hughes
Plymio a Gwresogi
Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew
01970 832129
07761 917235

Os am dacsi neu fws mini
CAMBRIAN CABS
Teithiau Pell ac Agos
01970 626292

CEFNOGWCH GYMRO LLEOL
H. LLOYD WILLIAMS
CYNNAL A CHADW GERDDI
TORRI PORFA A SIETYN,
GOSOD DECKING A SLABIAU
DOES DIM YN ORMOD O WAITH!
32 Bryncastell
Bow Street
Ffôn: 01970 820699
Symudol: 07966 105519







# Sioe 2



*Caryl Williams, Penrhos, gyda'i chaseg a enillodd ail wobr iddi*



*Dyfed Evans, Glanrafon, gyda'i hwrdd blwydd, a Beryl ei fam yn cadw golwg ar y ddau*



*Iolo Davies, Dolclettwr, gydag un o'i ddefaid Dorset a blesiodd y beirniad*



*Gwenno Evans, gyda'r tlws a enillodd am yr arddangosfa orau yn nosbarth yr ardd fach ar blat.*



*Tegwen Jones, gyda chwpan Cledwyn Evans a enillodd am y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran cyffeithiau*

pp medi 10_Layout 1 07/09/2010 20:17 Page 9

# 2010









*Helen Jones a Rosie Bailey a roddodd 'gynnig arni' yn yr adran gosod blodau!*



*Niamh O'Donnell yn derbyn tlws i ddisgyblion B6 gan y Llywydd*



*Chris Gilbert gyda Chwpan Coffa J O Ellis am yr arddangosfa orau yn adrannau'r blodau a gosod blodau*



*Marion Evans gyda Chwpan Berthlwyd am yr arddangosfa orau yn yr adran goginio*



*Mai Leeding gyda'i phlanhigyn tŷ mewn blodau*




*Carol Davies gyda'i phei 'meringue' a enillodd y wobr gyntaf iddi*

**2 Faro dan 12 modfedd**
1. Nick Bryan
**2 Faro dros 12 modfedd**
2. G. W. Jones, Glasgoed
**6 Tomato ceirios**
2. Claire Fowler, Bronygân
3. Nick Bryan
**1 Gwreiddyn Persli**
2 a 3. G. W. Jones
**4 Ffa Ffrengig**
2 a 3. G. W. Jones
**3 Coesyn Riwbob**
1. Huw Evans, Coedyreos, Taliesin
**Casgliad o berlysiau**
1 a 2. Helen a Ffion Hicks, Llangynfelyn
3. G. W. Jones
**3 Corbwmpen**
1. Sue Byrne, Llangynfelyn
**4 Taten**
1 a 2. Elfed Jones
**3 Coesyn Riwbob**
1. a 3. D R O Jones
**4 Ffa Dringo**
1 a 2. G. W. Jones
3. John Foster, Bristol House

**FFRWYTHAU**
**3 Afal Bwyta**
1 Tony Allenby
2. Huw Evans
**3 Afal Coginio**
1. a 2. G. W. Jones
**3 Peren Fwyta**
1. G. W. Jones
**3 Peren Goginio**
1 a 2. D. R. O. Jones
**3 Eirinen**
3. Emma Lamb, Glandwr
**6 Eirinen Ddu**
1 a 2. Geraint Lewis, York House, Tre'rddôl
**Clwstwr o rawnwin**
1. a 2. Gareth Hughes, Coetmor

Cwpan Mr a Mrs Hywel Evans, Elonwy, Capel Dewi am y nifer uchaf o bwyntiau yn yr Adran Ffrwythau – **G. W. Jones**
Cwpan Mr a Mrs E. Astley, Y Gorlan, am yr arddangosfa orau yn yr Adran Ffrwythau – **G. W. Jones**

**BLODAU**
**6 math o flodau'r ardd**
3. Rhian Nelmes, Dolau Gwyn
**Cynhwysydd o flodau**
1.Nicola-Myring-Thomas, Dôl Pistyll
**Suddlon**
3. Gwenno Evans, Tanllan, Llangynfelyn
**Cactus**
3. Gwenno Evans
**Planhigyn Dail**
3. Mai Leeding, Taliesin
**Planhigyn Ty yn ei Flodau**
1. Mai Leeding
**Begonia**
3. Nicola Myring Thomas, Dôl Pistyll
**Gardd fach ar Blât**
1. Gwenno Evans
2. Ffion Hicks
3. Dylan Wyn Benjamin, Dôl Pistyll
**Casgliad o Flodau Gwyllt**
1. Siôn Nelmes, Dolau Gwyn, Tre'r Ddôl
2. Medi Fflur Evans, Neuaddfawr
3. Tomos Jac Benjamin, Dôl Pistyll
**Blodyn ?**
2. Liz Roberts, 12 Maes y Deri
**Tusw ysgwydd**
1. Chris Gilbert, Tre'rddôl
2. Liz Roberts
**Basged grog**
1. Mai Leeding
2. a 3. Nicola Myring-Thomas, Dôl Pistyll
**Blwch ffenestr**
1. Mai Leeding

Cwpan coffa Mrs Miriam Robrts, Tal-y-bont yn gyfyngedig i drigolion Plwyfi Ceulanamaesmawr a Llangynfelyn am y marciau uchaf yn adran y blodau –
**Mai Leeding**
Tlws yn rhoddedig gan Dr. M. Parker, Ger-y-Plas, am yr arddangosfa orau yn nosbarth yr ardd fach ar blat
**Gwenno Evans**
Cwpan coffa Mr Ieuan Evans, Erwau'r Gors, Taliesin, am y Blwch ffenestr gorau
**Mai Leeding**

**GOSOD BLODAU**
**Paradwys gwyrdd**
1. Chris Gilbert
**Tapestry**
2. Chris Gilbert
**Arddangosfa ar gyfer bwrdd**
1. Chris Gilbert
**Rhowch gynnig arni**
1. Helen Jones, Gellimanwydd
2. Rosie Bailey, Troedrhiwseiri, Bont-goch
3. Llio James, Llannerch
Cwpan coffa Miss Nesta Evans, Erwau'r Gors, am y yr arddangosfa orau yn y trefniant miniatur
**Chris Gilbert**
Cwpan Coffa J.O. Ellis, Y Glyn am yr arddangosfa orau yn adrannau'r blodau a gosod blodau
**Helen Jones**

**COGINIO**
**Cacen Dundee**
3. Mai Leeding
**4 cacen gwpan**
1. a 3. Menna Morgan, 4 Dôl Pistyll
2. Janet Jones, Llwynglas
**Cacen ffrwythau**
2. Mai Leeding
3. Carol Davies, Taliesin
**Cacen Foron**
2. Liz Roberts
3. Mai Leeding
**Cacen Datys**
3. Janet Jones
**Cacen Siocled**
3. Carol Davies
**Bara Brith**
1. Janet Jones
2. Janet Evans, Cefngweiriog
**Torth gartref**
2. Jane Bailey
3. Ianto Hammonds, Bont-goch
**4 Sgon**
3. Jane Bailey
**6 Pice ar y Maen**
1. Anwen Jenkins, Tyngraig
2. Sara Jenkins, Tyngraig
3. Betsan Siencyn, Tanyrallt
**Pei 'Meringue'**
1. Carol Davies
2. Janet Evans
2. Marion Evans, Tynant
**Cacen Gaws**
1. Liz Roberts
**6 Leicec**
3. Betsan Siencyn
**Pryd yn cynnwys cynnyrch Cymreig**
1. Janet Jones
**Fflan Sawrus**
2 a 3. Carol Davies
**Tarten Ffrwythau**
1. Marion Evans
3. Sara Jenkins
**4 'Flapjack'**
1. Emsyl James, Llannerch
2. F. foster, Bristol House
**Fy hoff bwdin**
1. Menna Morgan
Cwpan Berthlwyd am yr arddangosfa orau yn yr adran goginio:
**Marion Evans**

**CYFFEITHIAU**
**Jar o ffrwythau meddal**
1. a 3. Tegwen Jones, Glasgoed
**Jar o ffrwythau gyda charreg**
1. a 2. Helen Hicks, Llangynfelyn
**Jar o Jeli Ffrwythau**
2. Tegwen Jones
**Jar o Geuled Lemwn**
1. Tegwen Jones
2. Janet Jones
3. Ellyw Jenkins, Tanyrallt
**Jar o Bicil Cymysg**
1. Janet Jones
2. a 3. Tegwen Jones
**Jeli Mintis**
1. Tegwen Jones
2. Ellyw Jenkins
3. Janet Jones
**Cyfaith anarferol**
1. Tegwen Jones
2. Helen Hicks
**3 Cyfaith fel anrheg**
1. Tegwen Jones
2. Helen Hicks
Cwpan Cledwyn Evans am y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran gyffeithiau:
**Tegwen Jones**

**CYNNYRCH LLAETHDY**
**4 ŵy brown**
3. Gwydion Jones, Cerrigcaranau Isaf
**4 ŵy gwyn**
2. Paul Watkins, Heulfor
3. Ianto Hammonds, Bont-goch
**4 ŵy arlliwedig**
2. Osian Wyn, Penywern
**4 ŵy Bantam**
1. Bedwyr Siencyn, Tanyrallt
2. a 3. Gwion Evans
**4 ŵy Hwyaden**
1. Gwion Evans
3. Helen a Ffion Hicks

**GWAITH LLAW**
**Sampler**
1. Betty Jenkins, Carregcadwgan
2. a 3. Dilys Morgan, Alltgoch
**Eitem croes bwyth**
1. Betty Jenkins
3. Rebecca Thomas, Cerrig Mawr
**Clustog**
1. Dilys Morgan
2. Betty Jenkins
3. Tegwen Jones
**Eitem wedi ei weu â llaw**
1. Carol Davies
**Eitem mewn cotwm crosio**
2. a 3. Dilys Morgan
**Gwaith cynfas**
1. Dilys Morgan
2. Betty Jenkins
3. Dilys Morgan
**Brodwaith**
1. a 2. Dilys Morgan
3. Betty Jenkins
**Dêcoupage**
1. Betty Jenkins
3. Tegwen Jones
**Cerdyn Cyfarch**
1. P. Monaghan, Banc y felin
3. Betty Jenkins
Cwpan Pwythau'r Sgubor am yr arddangosfa orau yn yr adran Gwaith Llaw: **Dilys Morgan**
Cwpan yn rhoddedig gan deulu Brongenau, Llandre am y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran Gwaith Llaw:
**Dilys Morgan**

**CREFFTAU**
**Gemwaith**
2. Jo Fothergill, Minafon
**Crochenwaith**
1. Jules Montgomery, Pennant, Bont-goch
**Peintiad**
1. Menna Morgan, Dôl Pistyll
3. S. Haynes, Tŷ Cefn
**Peintiad yn gyfyngedig i drigolion plwyfi Ceulanamaesmawr a Llangynfelyn**
1. Caroline Maddison, Yr Hen Gapel Ceulan
2. S. Haynes
3. Gerwyn Breeze, 4 Dôl Pistyll

**FFOTOGRAFFIAETH**
**Ger y môr**
3. James Hughes, Coetmor
**Llwybr yr ardd**
2. Helen Jones
**Golygfa Leol**
1. Jules Montgomery
2. Edwina Rhodes, 1 Maes y felin
3. Rebecca Haynes, Tŷ Cefn
**Coeden unig**
1. Edwina Rhodes
2. Gerwyn Breeze
**Eiliad i feddwl**
2. Ann Jenkins, Llety'r Bugail

**PLANT YSGOL GYNRADD**
**Dosbarth Meithrin**
1. Beca Llwyd Jones
2. Leila Hasner
3. Dei Llwyd Richards
**Dosbarth Derbyn**
1. Ioan Joseph
2. Tomos Jac Benjamin
3. Joel Bradley
**Blwyddyn 1 a 2**
1. Elan Llwyd Edwards
2. Emily Bradley
3. Heledd Davies
**Blwyddyn 3**
1. Hedd Llwyd Edwards
2. Keira Forster-Brown
3. Lewis Williams
**Blwyddyn 4**
1. Gemma Burnham
2. Lecsi Taylor
3. Celyn Evans
**Blwyddyn 5**
1. Seren Taylor
2. Caitlin Evans
3. Catrin Huws
**Blwyddyn 6**
1. Niamh O'Donnell
2. Bethan Benham
3. Niamh O'Brian

**PLANT YSGOL UWCHRADD**
**4 sgon**
**1. Elisabeth Hughes, Coetmor**
**Addurno bocs**
2. Gwenno Evans
**Gemwaith Bwytadwy**
1 a 2. Gwenno Evans
3. Ffion Nelmes,Dolau Gwyn
**Ffotograffiaeth**
1. James Hughes
2. Ffion Nelmes
**Llawysgrifen**
1. Ffion Nelmes

**C.FF.I.**

**Pizza**
1.a 2. Mererid James, Cwmudw
**Saig yn defnyddio pasta**
2. a 3. Mererid James
**Gwaith coed**
2. Gareth Jenkins, Ynyseidiol
**Ffotograffiaeth**
1. Mererid James
2. Sara Jenkins
**Gwaith coed**
1. a 2. Rhydian Evans, Neuaddfawr

**Dangosydd Ifanc**
1. Megan Davies, Rhoslan
3. Rhys Davies, Rhoslan
**Ffrwyn Arwain**
3. Sheila a Megan Davies
**Addas i Blentyn dan 7oed**
1. Megan Davies
2. Rhys Davies
**Lleol**
1. Catrin Fflur Manley
2. Megan Davies
3. Rhys Davies
**Caseg hesb neu Geffyl**
3. Becca Fleming Jenkins
**Merlen Mynydd Cymreig adran A o dan gyfrwy**
1. Becca Fleming Jenkins

**PRIF ENILLWYR Y SIOE**

**Da Duon:** Ken Ellis, Bryncrug
**Da Biff:** D & L Davies, Trefenter
**Defaid Penfrith:** R Howatson, Dinbych
**Torddu a Balwen:** Meinir Jones, Capel Isaac, Llandeilo
**Torwen:** Myfyr Jones, Eglwysbach
**Jacob:** Mark Wakelin, Llanilar
**Suffolk:** Dafydd Davies, Bethania
**Charollais:** D A Morgan, Cross Inn, Llandysul
**Texel:** Mr Theobald, Penrhyncoch
**Bridiau Pur a Wyn Tewion:** D Evans, Capel Dewi
**Bridiau Prin:** Keith Davies, Felinfach

**Dofednod | Ieir:** Huw Thomas, Aberarth
**Plant:** David Andrew, Pool Quay, Trallwm
**Hwyaid:** Daniel Rees, Tregaron

**Cŵn**
**Dangosydd Gorau dan 12 oed:** Sophie Marrighi, Caerdydd
**Arddagosiad Gorau:** Sally Reading, Pontrhydygroes
**Arddangosiad Gorau:** Rhian Davies, Llanbadarn

**Cneifio**
**Gwellaif:** Glyn Jones, Bala

**Geifr**
**Gafr Odro:** Alison Logan , Llanbedr Pont Steffan
**Gafr Flwydd a Min Gafr:** Aeron Edwards ac Edith Davies, Llanilar

**Ceffylau**
**Pencampwr y Cobiau a'r Sioe:** R Rees, Horeb, Llandysul

**Canlyniadau Rasus Cŵn Sioe Tal-y-bont**
Dosbarth 1. Ras i gŵn defaid
1af Dafydd Jones - Popty
2il Brychan Lewis - Carlo
3ydd Dewi Jenkins - Gwyn

Dosbarth 2. Ras i Ddaeargwn
1af Dewi Jenkins - Tincer
2il neb yn deilwng
3ydd neb yn deilwng

Dosbarth 3. Ras i filgwn a chŵn potsiwr
1af Ian McMahan - Zac
2il Llyr James - Boost
3ydd Sam Rowley - Keeva

Dosbarth 4. Ras i filgwn bach
1af Annette Musker - Zeno
2il Annette Musker - Queezle
3ydd Sandra Gorman - Mari

Dosbarth 5. Ras i unrhyw frid arall - coes byr
1af Anna Sistern - Finn
2il Dewi Jenkins - Cadi
3ydd Alan Hale - Madge

Dosbarth 6. Ras i unrhyw frid arall - coes hir
1af Katy Prickett - Mole
2il Dewi Jenkins - Guto
3ydd Andy Bakewell - Sam

Dosbarth 7. Ras i ferched a'i cŵn
1af Eiry Bonner - Meg
2il Pip Williamson - Sadie
3ydd Amanda Binks - Menna

Dosbarth 8. Ras i ddynion a'i ŵn
1af Dewi Jenkins - Gwyn
2il Ceredig Lewis - Carlo
3ydd John Williams - Lunar

Dosbarth 9. Ras i blant ysgol gynradd a'i cŵn
1af Sion Manley - Inca
2il Gemma Burnham - Rosie
3ydd Bedwyr Jenkins - Gwenno

Dosbarth 10. Ras i blant ysgol uwchradd a'i cŵn
1af Richard Bailey - Nel
2il Gwenno Evans - Jack
3ydd Tomos Wyn - Inca

pp medi 10_Layout 1 07/09/2010 20:17 Page 11

# Elin Jones AC – O'r Cynulliad


Elin Jones AC ar faes sioe Tal-y-bont.

Tymor yr haf, wrth gwrs, yw tymor y sioeau ledled Ceredigion. Yn sicr, sioe fwyaf Ceredigion dros yr haf oedd y Sioe Fawr yn Llanelwedd, neu Sioe'r Cardis fel y daethom i'w hadnabod eleni! Fe dreuliais i'r pedwar diwrnod yn crwydro'r maes ac roeddwn yn falch iawn i weld cymaint o wynebau cyfarwydd yno a chroeso gwresog y Cardis i'w deimlo ym mhobman!

Ar faes Sioe'r Cardis, fe ymunais â Gweinidog yr Amgylchedd, Jane Davidson AC, i lansio canllawiau cynllunio newydd fydd yn ei gwneud hi'n haws i godi tŷ yng nghefn gwlad ar gyfer pobl sy'n gweithio yno. Ymysg y rheolau newydd mae yna ganllawiau sy'n ei gwneud hi'n bosib i godi ail dŷ ar fferm er mwyn hwyluso'r broses o drosglwyddo'r fusnes i'r genhedlaeth nesaf. Mae disgwyl i swyddogion cynllunio'r Cyngor ddefnyddio'r canllawiau newydd yn syth ac rwy'n gobeithio y byddwn yn gweld effaith y rheolau newydd yn y dyfodol agos.

Yn ystod y Sioe Frenhinol, fe wnes hefyd lansio Cynllun Cymorth Band-eang newydd Llywodraeth y Cynulliad ar y cyd gyda'r Dirprwy Brif Weinidog, Ieuan Wyn Jones AC. Bwriad y cynllun yw darparu grant o hyd at £1,000 yr eiddo i dai a busnesau ar draws Cymru sydd dal yn methu cael cyswllt â'r rhyngrwyd fand-eang. Mae modd defnyddio'r grant naill ai fel unigolion i brynu system addas (fel rhyngrwyd fand-eang trwy loeren) neu gydweithio ar lefel cymunedol i brynu system ddi-wifr ehangach. Os ydych am gael mwy o wybodaeth am y cynllun newydd hwn, mae croeso i chi gysylltu â'm Swyddfa Etholaeth yn Aberystwyth ar 01970 624 516.

Yn ychwanegol i'r Sioe Fawr, fe fynychais ddigwyddiadau eraill dros yr haf, gan gynnwys Sioe Dyffryn Teifi, Sioe Tal-y-bont, Sioe Aberteifi a'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nglyn Ebwy. Roedd hi'n dda gweld cymaint o gystadleuwyr o Geredigion yn cyrraedd y brig yn y digwyddiadau yma a hoffwn eu llongyfarch ar eu llwyddiannau.

## Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Cyn dechrau trafod y materion oedd ar agenda cyfarfod mis Gorffennaf o'r Cyngor, estynnodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Gerwyn Jones, wahoddiad i Digby Bevan, Hwylusydd Tai Gwledig Ceredigion, i ymhelaethu ar y datblygiadau diweddaraf parthed creu partneriaeth gyda'r Cyngor i ddatblygu tai fforddiadwy o fewn y gymuned. Wedi i Mr Bevan egluro rhai o'r ystyriaethau a gododd yn ystod ei drafodaethau gyda chyrff perthnasol eraill, cytunwyd i anfon llythyr at Brif Weithredwr Cyngor Sir Ceredigion yn cadarnhau bod y Cyngor Bro yn awyddus i gydweithio gyda'r Hwylusydd Tai Gwledig i gynnal arolwg o'r anghenion tai lleol. Cyn symud ymlaen i greu partneriaeth ffurfiol, fodd bynnag, roedd yr aelodau'n awyddus i dderbyn sicrwydd y byddai gan y Cyngor Bro ran ganolog i'w chwarae wrth ddiffinio 'anghenion lleol' yng nghyd-destun Ceulanamaesmawr.

Adroddwyd fod swyddogion Tai Ceredigion wedi llunio argymhellion cynhwysfawr i wella amgylchedd stad Maes-y-deri. Adroddodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn fod holl drigolion Maes-y-deri bellach wedi derbyn copi o'r cynlluniau arfaethedig, ynghyd â gwahoddiad i fynychu cyfarfod i drafod yr argymhellion oedd i'w gynnal yn y Neuadd Goffa nos Iau 29 Gorffennaf.

Cyflwynodd y Clerc adroddiad cadarnhaol ar yr hysbysfwrdd a godwyd yn ddiweddar gan Gyngor Cymuned Llangynfelyn ger Craig y Penrhyn. Cytunwyd i archebu hysbysfwrdd cyhoeddus tebyg i'w osod yn Bont-goch.

Adroddodd y Cadeirydd fod caniatâd amodol wedi'i roi i'r cais i ddymchwel tŷ gwydr a chodi garej ar dalcen deheuol Lerry View, Tal-y-bont

Cyflwynodd y Clerc Adroddiad Ariannol am chwarter cyntaf y flwyddyn. Cytunwyd y dylid neilltuo swm o arian yn flynyddol er mwyn creu cronfa ariannol ar gyfer gwelliannau i'r Cae Bach.

Adroddodd y Clerc fod y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd wedi cwrdd i dafoli'r ddau dendr a dderbyniwyd i beintio'r ddwy gysgodfan bysiau ar y patshyn glas a Maes-y-deri. Cytunwyd i dderbyn eu hargymhelliad i gynnig y tendr i'r isaf o'r ddau gynnig, ac i holi am amcangyfrif i beintio'r gysgodfan bysiau o flaen yr Ysgol yn ogystal.

Adroddodd y Clerc fod y Cyngor Sir bellach wedi dechrau ar y gwaith o atgweirio a pheintio offer yn y Cae Bach, a glanhau'r lloriau dan yr offer.

GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth,
Batris a Theiars

Gellir llogi car, fan neu fws mini
i'w gyrru eich hun

www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

Teithiau Amser Da

MAMMA MIA!

Taith 'Sioe a Siopa'!

Canolfan y Mileniwm, Caerdydd
Ionawr 11-12, 2011

£156

Gadael **MACHYNLLETH** am 9 y bore,
**PENRHYN-COCH / ABERYSTWYTH** tua 9:30
'bwffe' enwog 'Amser Da' ar y daith,
Tocyn da i'r sioe, llety yng ngwesty'r Parc (4★),
brecwast a siopa, ac adre erbyn swper.

Cysylltwch â Dai am fanylion pellach:
01970 828128 / 07989 303614
Teithiau Amser Da
Cwmisaf, Cwmsymlog, Aberystwyth, Ceredigion
**www.amserda.co.uk**

pp medi 10_Layout 1 07/09/2010 20:17 Page 12

# Ysgol Llangynfelyn

## Trip Ysgol

Aeth holl ddisgyblion yr ysgol i Barc Greenwood Forest, Y Felinheli am y diwrnod. Cafodd pawb hwyl ar y reidiau, y cychod bach ac wrth gwrs wrth wario eu harian poced yn y siop ar hufen ia blasus.



## Mabolgampau

Cynhaliwyd mabolgampau'r ysgol ar fore sych ar ddechrau mis Gorffennaf. Ar ôl cystadlu brwd Mochno enillodd gyda Chletwr yn agos iawn yn ail. Capteiniaid Mochno oedd Morgan Langley ac Ezrah King. Connor Byrne a Grace Davies enillodd y tlysau am y mwyaf o bwyntiau yn y Cyfnod Sylfaen a Teilo Courtier-Lilley a Tobia Heathfield i blant Cyfnod Allweddol 2.



## Barbeciw

Cafwyd barbeciw llwyddiannus iawn eto eleni ar iard yr ysgol. Llwyddwyd i godi dros £700. Diolchwn i'r holl rieni a fu'n gweithio'n galed i wneud y noson yn un mor llwyddiannus. Cyflwynwyd rhodd i Mr Emyr John ar y noson wrth iddo adael Ysgol Llangynfelyn ar ôl dwy flynedd fel Pennaeth. Dymunwn bob hwyl iddo yn ei swydd newydd fel Pennaeth Ysgol Aberporth. Cyflwynwyd rhodd hefyd i Mrs Phyllis Ellis sy'n gadael ei swydd fel Goruchwyliwr Amser Cinio ar ôl 13 mlynedd. Nid ydym yn ffarwelio arni'n gyfan gwbl gan ei bydd dal i weithio ychydig yn y gegin yn cynorthwyo Mrs Byrne ac yn gweithio yn y Clwb Brecwast. Ffarweliwyd hefyd â Mrs Delyth Morgan a Mrs Helen Hicks. Bu Mrs Hicks yn gweithio yn yr ysgol tra oedd Mrs Morgan ar ei chyfnod mamolaeth. Bydd Mrs Morgan yn dechrau swydd newydd yn Ysgol Craig yr Wylfa ym mis Medi. Dymunwn bob llwyddiant iddi yn ei swydd newydd.




## Athrawes Newydd

Croesawn Miss Caryl Davies i'r ysgol fel Athrawes Ddosbarth Cyfnod Allweddol 2. Daw Miss Davies yn wreiddiol o Lanfihangel-ar-arth ger Llandysul. Graddiodd yn y Gymraeg o Brifysgol Aberystwyth cyn gwneud cwrs Ymarfer Dysgu Cynradd. Mae ganddi ddiddordeb mewn canu a chwarae pêl-rwyd. Gobeithiwn y bydd yn hapus iawn yma yn Ysgol Llangynfelyn.





## Priodas Hapus

Priodwyd Dylan Morgan, Alltgoch, Pentrebach â Lynwen Herbert, Lledrod yng Nghapel Rhydlwyd, Lledrod ar 7 Awst. Cynhaliwyd y wledd briodasol yn Ngwesty'r Plu, Aberaeron. Dymunwn yn dda i'r ddau yn eu cartref newydd ym Mhentrebach.

## Y Maes Chwarae Newydd

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, gwelwyd cynnydd yn natblygiad y maes chwarae cymunedol newydd, Cae'r Odyn Galch, ger ffordd Maesnewydd. Gobeithir chwarae'r gemau cyntaf yno ym mis Hydref. Mae'r Gymdeithas sy'n gyfrifol am y maes wedi sefydlu Clwb 200 er mwyn codi arian ar gyfer y fenter. Bydd gwobrwyon hael a phris tocyn am flwyddyn yw £10 yn unig. Gobeithio y bydd pobl yr ardal yn cefnogi'r datblygiad cyffrous hwn drwy ymuno â'r Clwb. Mae ffurflenni ar gael gan aelodau pwyllgor rheoli'r Gymdeithas.

# Parti Ffarwél

Roedd Neuadd Ysgol Tal-y-bont dan ei sang ar bnawn Iau ar ddechrau mis Gorffennaf wrth i ddisgyblion a chyn-ddisgyblion, rhieni, staff a chyn-staff yr ysgol ymgynnull i dalu diolch i Mrs Falyri Jenkins ar achlysur ei hymddeoliad fel athrawes wedi un mlynedd ar hugain yn y swydd. O gofio'i chyfraniad amhrisiadwy i weithgareddau cerddorol yr ysgol dros gynifer o flynyddoedd, roedd yn gwbl briodol mai uchafbwynt y cyfarfod dathlu oedd y perfformiadau creadigol amrywiol a gyflwynwyd gan ddisgyblion a chyn-ddisgyblion. Roedd canu graenus Sam Ebenezer o unawd Sioe Gerdd, dehongliad plant iau'r ysgol ar ffurf dawns i gerddoriaeth Karl Jenkins, asbri ac urddas clocsio'r bobl ifanc, a datganiad gwefreiddiol côr yr ysgol o gerdd o fawl (y geiriau gan Nia Huw, un o'i chyd-athrawesau), i gyd yn dystiolaeth o'r brwdfrydedd a'r cariad at gerddoriaeth a'r celfyddydau a feithrinwyd dros y blynyddoedd ymhlith disgyblion yr ysgol dan arweiniad ysbrydoledig Mrs Falyri Jenkins. Ar ddiwedd yr eitem olaf cyflwynwyd copi wedi ei fframio i Mrs Jenkins o gerdd Miss Huw, wedi ei lythrennu'n gain gan Ruth Jên.

Yn dilyn cyfarchion y plant, cafwyd anerchiadau byr gan Gwilym Huws ar ran Corff Llywodraethol yr Ysgol, y Cynghorydd Ellen ap Gwynn ar ran y gymuned ehangach, a Hefin Jones, Pennaeth yr Ysgol. Cyfeiriwyd at gyfraniad clodwiw Mrs Jenkins nid yn unig yng ngweithgareddau cerdd yr ysgol, ond hefyd fel athrawes o'r radd flaenaf a fedrai ysbrydoli'r plant gyda'i brwdfrydedd heintus, ei dealltwriaeth o anghenion a diddordebau'r plant a'i chonsýrn dros ddatblygiad pob plentyn dan ei gofal. Cyfeiriwyd yn arbennig at ei gallu fel hyfforddwraig cerdd ysbrydoledig a oedd bob amser am i'r plant brofi'r pleser a'r hwyl a geir wrth ymhél â cherddoriaeth. Ategwyd hyn i gyd gan ddyfyniadau o sylwadau rhieni ac eraill yn y gymuned a gasglwyd rai blynyddoedd yn ôl ac a ddarllenwyd gan y Pennaeth.

Cyn symud ymlaen i dorri'r gacen dathlu, darllenodd Delyth Ifan gywydd diolch campus a luniwyd gan ei gŵr, y Prifardd Gwenallt Llwyd Ifan, a chyflwynwyd copi wedi ei fframio o'r cywydd i Mrs Jenkins. Hefyd, gyda'r arian anrhydeddus iawn a gasglwyd fel tysteb, cafodd ei hanrhegu â darn o waith celf cywrain a luniwyd gan Llio James, Llannerch, un arall o gyn-ddisgyblion Mrs Jenkins, ynghyd â thaleb ar gyfer archebu tocynnau i Wimbledon 2011.

Cyn cloi rhan ffurfiol y cyfarfod, cafwyd gair byr gan Mrs Jenkins; diolchodd am yr anrhegion a'r cyfarchion, gan ddweud gymaint roedd hi wedi mwynhau bod yng nghwmni'r plant dros y blynyddoedd. Da clywed y bydd yn dal i gadw mewn cysylltiad â'r ysgol yn y dyfodol. Ar ddiwedd y parti, cafodd pawb gyfle i fwynhau clonc dros baned a chacen flasus a wnaed gan Mrs Liz Roberts.

Dymuna'r ysgol ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd at lwyddiant y parti, yn enwedig i Elinor Powell ac Emma O'Brien am bob cymorth gyda'r eitemau, i staff y gegin ac aelodau'r Gymdeithas Rieni am y gwaith trefnu. Pob dymuniad da i Mrs Jenkins i'r dyfodol.

*Gwilym Huws*



*Mrs Falyri Jenkins yn torri'r gacen yn y parti ffarwel yn Ysgol Tal-y-bont, gyda chymorth arferol Mrs Jen Jones, prif gogyddes yr ysgol.*

# Croeso



Croeso cynnes i Manon Mai Rhys, sydd newydd ymuno â staff dysgu Ysgol Tal-y-bont. Bydd Manon yn dysgu plant B5 a 6 a dyma ei swydd dysgu cyntaf.

Daw Manon o Lanybydder yn wreiddiol, ond treuliodd gyfnodau ym Mhwllheli a Bangor. Dilynodd gwrs gradd Cymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth cyn mynd ymlaen i wneud cwrs dysgu.

Cerddoriaeth yw ei phrif ddiddordeb ac mae'n arwain côr 'Lliaws Cain'yn ardal Trawsfynydd. Mae hefyd yn unawdydd lleisiol ac enillodd y drydedd wobr ar yr Unawd Cerdd Dant dan 25 oed yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Croeso i chi Manon a phob dymuniad da i chi.



# Priodas

Ar 30 Gorffennaf yn eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach, priodwyd Rhian Griffiths, gynt o Dŷ'r Ysgol, Eglwysfach, â Llion Jones, Dinbych. Catrin Jenkins oedd yr organydd a chynhaliwyd y wledd yng Ngwesty Llyn Efyrnwy.







pp medi 10_Layout 1 07/09/2010 20:18 Page 14

## Dosbarth Ioga



Ym mis Mehefin daeth Hywel Gwynfryn i sgwrsio ag aelodau o'r dosbarth ioga er mwyn recordio eitem ar gyfer rhaglen radio Geraint Lloyd. Dyma lun o Hywel yn cyfweld Sue Jones Davies, ein hathrawes, cyn dechrau'r wers. Bydd y dosbarth yn ail gychwyn yn Neuadd Talybont ar nos Fawrth, Hydref 5ed am 7.30. Os am wybodaeth bellach cysylltwch ag Enid ar 01970 832488.

## Dyn y Mêl

Mae Wil Griffiths Comins Coch, dyn y mêl yn y pennawd, wedi sgwennu llyfr difyr iawn ar gadw gwenyn. Yn y rhagair mae Wil yn son mai dim ond tri llyfr oedd ar gael yn y Gymraeg ar y testun - un wedi ei gyhoeddi yn 1888, yr ail yn 1960 a'r trydydd yn 1972. O feddwl am y diddordeb mewn gwenyna mae hyn yn dipyn o syndod ac mae cyfrol amserol Wil yn sicr yn llanw bwlch.

Man a man bod yn onest – nid wyf yn gwybod nesa peth i ddim am gadw gwenyn – ond dysgais lawer am y grefft a hynny mewn ffordd sionc ac ymarferol. Cewch wybod am hanes y gwenyn, adeiladwaith y cwch, sut i fagu haid, swyddogaeth holl bwysig y frenhines, gwaith y tad (a ddisgrifir fel y gwenyn diog!), sut i fwydo'r teulu, blwyddyn y gwenynwr a'r planhigion a rydd y neithdar gore. Hyn i gyd mewn arddull gartrefol, hawdd ei ddarllen a'i ddeall. Mae'r awdur hefyd yn gwneud cyfraniad gwerthfawr trwy fathu termau i'r maes ac mae rhestr hwylus o'r rhain ar ddiwedd y llyfr. Hoffais yn arbennig bachyn sa' am *barbed hook* a dawns sigl-di-gwt am *waggle dance*. Wrth gwrs i ddeall beth yw'r offer a'r arferion rhaid prynu'r gyfrol!

Cyfoethogir y llyfr gan luniau du gwyn a lliw a thrwy gyfres o gartwnau gan Elwyn Ioan. Mae'r cartwnau yn goleuo'r straeon hynod ddoniol ar y troeon trwstan a fu'n rhan o brofiad yr awdur o gadw gwenyn. Yn y straeon down i nabod y Wil Griffiths sy'n gyfarwydd i bob un ohonom - y dyn difyr yn llawn hiwmor ond dyn hefyd sy'n arbenigwr ar ei grefft.

Perl o gyfrol felly a llongyfarchiadau i Wil Griffiths amdani.

**I ennill copi o Dyn y Mêl, taflwch olwg nôl ar 'Steddfod Glyn Ebwy. BETH OEDD ENW 'ANSWYDDOGOL' ARGLWYDDES LLANOFER? Atebion i'r golygydd cyffredinol erbyn 1af o Hydref**
**Dyn y Mêl, Wil Griffiths, Carreg Gwalch, £6.50**

*Geraint Evans*

## Parti codi arian

Trefnwyd parti codi arian gan Del ac Ian Tansley, Yr Hen Ysgol, Eglwysfach ar nos Wener, 27 Awst. Cafodd pawb hwyl yn blasu yr amrywiaeth o ddiodydd 'coctel' ac roedd y 'tequila sunrise' yn boblogaidd iawn ! Codwyd £600 tuag at apêl llifogydd Pacistan. Diolch iddyn nhw am fod mor hael yn agor eu cartref i'r gymuned.



**Taith Dewi Sant: 2-10 Hydref 2010**

Eleni yn ystod wythnos gyntaf mis Hydref bydd "Taith Dewi Sant" yn cyrraedd ardaloedd Penrhyn-coch, Bow Street, Tal-y-bont, Tre Taliesin a'r cyffiniau. Bydd yr wythnos yn rhan o genhadaeth ehangach a fydd yn digwydd rhwng 18 Medi a 10 Hydref yn siroedd Ceredigion, Penfro a Gorllewin Caerfyrddin.

Eglwysi lleol sy'n trefnu'r genhadaeth mewn cydweithrediad â mudiad o'r enw "Through Faith Missions". Gwahoddwyd y mudiad hwn i weithio mewn partneriaeth â'r eglwysi lleol ac y mae ganddynt flynyddoedd lawer o brofiad yn cynnal cenhadaeth o'r fath.

Yn ystod yr wythnos bydd y tîm o genhadon yn awyddus i gyfarfod â chymaint o bobl â phosib. Byddant yn ymweld â mudiadau a chymdeithasau lleol yn ogystal â mynd o ddrws i ddrws i ddweud gair am y daith, y genhadaeth a'r dystiolaeth Gristnogol. Bydd pob un ohonynt yn gwisgo crys chwys gyda'r enw "Taith Dewi Sant" mewn llythrennau bras a byddant yn lletya mewn festrïoedd yn ardal Bow Street am y pedair noson gyntaf cyn symud ymlaen i ardal Penrhyn-coch am y pedair noson olaf. Fe fydd angen sicrhau cartrefi lle gall y gwirfoddolwyr gael pryd o fwyd a chawod gyda'r hwyr a phe baech yn barod i wahodd dau aelod o'r tîm i'ch cartref un noson am swper byddem yn hynod ddiolchgar.

Fel rhan o'r genhadaeth cynhelir Oedfa Ddiolchgarwch arbennig yn Neuadd Penrhyn-coch ar nos Fercher, 6ed Hydref yng nghwmni'r Parchedig Tecwyn Ifan. Estynnir croeso cynnes i bawb i ddod i'r oedfa. Os hoffech dderbyn rhagor o wybodaeth am y genhadaeth neu os ydych yn fodlon darparu pryd o fwyd gyda'r hwyr yna cysylltwch â Wyn neu Judith Morris ar 820939

DEWCH I FLASU ARDAL CWMTAWE,
CYN NEU YN YSTOD EISTEDDFOD YR URDD 2011.
DAU FWTHYN 4* YN CYSGU 5 A 6, MEWN ARDAL WLEDIG, OND YN GYFLEUS I GRWYDRO DE CYMRU, 20 MUNUD O ABERTAWE.
01792 863367 WWW.WALESCOTTAGEBREAKS.CO.UK

**"OS MÊTS"**

CYMDEITHAS GYDENWADOL IEUENCTID GOGLEDD CEREDIGION

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas "OS MÊTS"
**Nos Fawrth Medi 14eg 2010 am 7:00 o'r gloch**
yn Festri Capel y Garn, Bow Street
Croeso cynnes i bawb sydd â diddordeb

Argraffu 5-lliw
a gwasanaeth di-ail:
holwch Paul am bris
ar **paul@ylolfa.com**



pp medi 10_Layout 1 07/09/2010 20:18 Page 15

# Criced

Yn ystod 2010, talodd Clwb Criced Talybont bris drud am fis Mai simsan. Yn ystod y gwanwyn, roedd nifer o chwaraewyr allweddol wedi eu hanafu neu ddim ar gael, felly roedd gweddill y tymor yn fater o adennill tir a gollwyd. Gwnaethpwyd hynny i raddau, yn enwedig wedi i rai o'r bechgyn iau ddychwelyd o'r coleg. Gwnaeth David Evershed a Dan McLean gyfraniadau da iawn i fuddugoliaethau yn erbyn Llambed ac ail dim Aberystwyth, gan sicrhau'r wythfed safle yng Nghynghrair y Gorllewin i'r Clwb eleni. Bu rhai o'r bechgyn mwy profiadol hefyd yn atgoffa'r to iau o'u gallu - sgoriodd Simon Margrave-Jones ei gant cynta' dros y clwb mewn buddugoliaeth swmpus dros Dywyn, a bu ond y dim i fatio Simon Lloyd-Williams achub y dydd mewn gemau agos yn erbyn Rhaeadr Gwy ac Aberporth. Dichon y bydd y gŵr o Foelgolomen eisoes yn edrych ymlaen at dymor 2011, ei ddegfed ar hugain dros y clwb!



*Tîm Criced Tal-y-bont 2010*

**Yswiriant, Pensiynau, Buddsoddiadau**

**Am wasanaeth personol a chyfeillgar, ffoniwch ein swyddfa lleol yn Aberystwyth ar:**

**01970 612331**


**www.nfumutual.co.uk/aberystwyth**

NFU Mutual is The National Farmers Union Mutual Insurance Society Limited (No. 111982). Registered in England. Registered Office: Tiddington Road, Stratford Upon Avon, Warwickshire CV37 7BJ. For security and training purposes, telephone calls may be recorded and monitored.

NFU **Mutual**
INSURANCE PENSIONS INVESTMENTS

**We do right by you**

## Treialon Cwn Defaid Talybont



*Y Llywydd Mr. Robert Williams, Penywern, Talybont, yn cyflwyno cwpan i Dewi Jenkins, Tynygraig, y buddugol yn y Dosbarth lleol.*

O edrych allan yn gynnar fore Mercher Awst 4ydd roedd y melinau gwynt o'r golwg yn y niwl ac roedd yn glawio yn drwm iawn - ddim yn argoeli yn dda am dreialon cwn defaid. Ond o gyrraedd y cae yn Llety Ifan Hen erbyn ychydig wedi saith o'r gloch roedd y glaw wedi cilio a'r niwl yn dechrau codi. Oherwydd y tywydd bu raid gohirio'r dechrau am tua awr ac hefyd roedd y cystadleuwyr, yn wybodol o'r amgylchiadau, yn araf yn cyrraedd y maes. Ond tua hanner awr wedi wyth cafwyd dechrau i'r cystadlu a bu rhedeg cyson, ond am ysbaid i'r beirniad gael cinio, tan bron hanner awr wedi naw yr hwyr pryd y trechwyd ni gan y gwyll.

Roedd naws ryngwladol i'r diwrnod gyda nifer o gystadleuwyr o dramor - yr Iseldiroedd a'r Eidal ac fe gipiodd un o'r Eidalwyr nifer o'r gwobrau llai. Hefyd da oedd gweld ambell gystadleudd ifanc gydag un ferch ond yn unarddeg oed - gobaith da i'r dyfodol.

Ar ddiwedd y dydd diolchodd cadeirydd y pwyllgor, Evan Jenkins Carregcadwgan i deulu Llety Ifan Hen am fenthyg y cae a'r defaid i'r treialon, i'r cystadleuwyr am eu cefnogaeth, i'r stiwardiaid am eu gwaith drwy'r dydd ond yn bennaf i'r beirniad, Mr. Meirion Williams o'r Trallwng a oedd wedi cael diwrnod hir iawn a gyda siwrnau hir adref eto. Yna cyflwynodd y llywydd, Mr. Robert Williams, Penywern, diolchodd iddo am eu gefnogaeth a'i wahodd i gyflwyno'r gwobrau.

Un o'r cystadleuwyr cyntaf ar y cae oedd Llyr Evans o Fronant a phrofodd y cychwyn cynnar yn llwyddianus iawn iddo pan gipiodd y rhan fwyaf o'r gwobrau. Gyda'i gi Sam enillodd y dosbarth agored dull de Cymru, y dosbarth cyfyngedig i Geredigion, y dosbarth nofis, y rhediad orau cyn hanner dydd gyda'r wobr arbennig er côf am Mrs. Edwards Lletyllwyd a Jenkin Morris a'r wobr am y rhediad orau'r dydd a'r cawg rhosynau er côf am Richard Edwards Lletyllwyd.

Wedi gosod y cae brynhawn dydd Mawrth cafwyd treialon lleol nos Fawrth i aelodau'r pwyllgor a'r ffermwyr ieuanc gyda'r llywydd yn beirniadu. Dyfarnodd y wobr gyntaf i Dewi Jenkins Tyngraig gyda'i gi Moss.

Yn hwyr y prynhawn cynhaliwyd cystadlaethau cneifio gyda'r llywydd yn beirniadu. Enillwyd y gystadleuaeth agored gan Dilwyn Evans, Tynant, gyda Ceredig Lewis o Langwyryfon yn ail ac Elgan Evans, Tynant, yn drydydd. Yn y dosbarth agored i aelodau clybiau Ffermwyr Ieuanc yr enillydd oedd Rhydian Evans, Tynant, gyda John James, Penbanc, yn ail ac Elgan Evans yn drydydd. Ceredig Lewis enillodd y gystadleuaeth i Ffermwyr Ifanc o dan 21oed gyda Llyr James yn ail a Dewi Jenkins yn drydydd.

Ar ddiwedd y dydd cytunodd pawb ein bod wedi cael diwrnod llwyddianus iawn eto eleni er gwaethaf gorfod gohirio'r dechrau.

*Ieuan Morgan*

## Marwolaeth

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth sydyn Keith Tebby, yn ei gartref yn Singapore, ym Mehefin, yn 54 oed.

Mab oedd i Mrs Enfys Tebby, Llandrindod ac wyr i'r diweddar Mr a Mrs Wil Richards, Maesyderi a nai i Mr Eurig Richards.

Treuliodd ei flynyddoedd cynnar yn Nhal-y-bont gan ddychwelyd yma bob gwyliau i Wenallt at ei famgu a'i ddadcu.

Roedd wedi teithio'n helaeth dros y byd wrth ddilyn gyrfa lwyddiannus fel Gwyddonydd Radar.

Cydymdeimlwn gyda'i wraig Chris a'i ferch fach Carys, ei fam Enfys, Eirug a'r teulu yn eu colled.

Yn ôl ei ddymuniad, cafodd ei lwch eu gwasgaru ar lan yr afon Leri ym Mraichgarw, yn y man ble treuliodd gymaint o amser yn pysgota yng nghwmni ei ddadcu

pp medi 10_Layout 1 07/09/2010 20:18 Page 16

# CHWARAEON




## Capten Cymru

Dros y blynyddoedd mae enw Kara Jones, Maes-y-Deri, Tal-y-bont wedi ymddangos yn gyson ar dudalennau chwaraeon Papur Pawb. Cafwyd adroddiadau amdani yn gapten timau hoci a phel droed a chafwyd ei hanesion yn cystadlu ym maes saethu ar lefel cenedlaethol.

Ond eleni, cafodd y fraint a'r anrhydedd o gael ei dewis yn gapten ar dim saethu merched Cymru a fu'n cystadlu yn yr Alban ym mis Gorffennaf. Kara yw'r ferch ieuengaf erioed i gael ei gwneud yn gapten – a dyna bluen arall yn ei het.

Cyn cael ei dewis yn aelod o'r tîm fodd bynnag, roedd yn rhaid iddi yn gyntaf gystadlu yn erbyn merched eraill mewn wyth rownd flaenorol gan ddewis y 4 sgor uchaf i ennill ei lle.

Llwyddodd i ennill ei lle yn gyntaf yn 2007. Mae'n cael ei hyfforddi gan Peter Croft sydd yn gyn- hyfforddwr olympaidd.

Mewn tywydd garw iawn, bu'r tîm yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Agored DTL Prydain ac yn Nhwrnament DTL Rhyngwladol Gwledydd Cartref. Yng nghanol y cystadlu torrodd gwn Kara a bu raid iddi gael benthyg un arall. Er hyn, llwyddodd i saethu'n dda.

Llongyfarchiadau mawr i ti Kara.

Bellach, mae ei golygon ar ddilyn cwrs Rheoli Chwaraeon ym Mhrifysgol Morgannwg ac y mae eisioes wedi ennill ysgoloriaeth i fynd yno. Pob hwyl a llwyddiant yn y dyfodol Kara a chofia anfon newyddion i Papur Pawb.

Y mae Kara a'r teulu'n hynod ddiolchgar i bentrefwyr Tal-y-bont am eu cefnogaeth i Kara.

Mae'n bwysig nodi hefyd i Lee, tad Kara gael ei ddewis yn aelod o dîm hŷn y dynion a fu'n cystadlu hefyd.

## Eifion yn Ennill!

Ym myd chwaraeon maen nhw'n dweud bod ennill gwobr unwaith yn anodd...ond yn fwy anodd o dipyn yw ei adennill. Dyna fu camp Eifion Jones, Craig y Delyn, Tal-y-bont yn ddiweddar drwy iddo gael ei ddewis yn Chwaraewr y Flwyddyn am yr eil dro yng nghinio blynyddol Clwb Rygbi Aberystwyth.

Mae Eifion wedi chwarae i'r tîm cyntaf dros nifer o dymhorau bellach fel bachwr, prop a blaenasgellwr. Brwdfrydedd, cryfder, ffitrwydd a dyhead i ennill sydd yn gwneud Eifion yn boblogaidd gyda'i gyd-chwaraewyr a chefnogwyr tîm y dref - rhinweddau sydd hefyd yn ennyn parch ac edmygedd yn ogystal â chodi ofn weithiau ymysg y gwrthwynebwyr!

Gêm dîm yw rygbi wrth gwrs, yn fwy na sawl gêm arall i ddweud y gwir, gan fod pawb â'i rôl hanfodol i chwarae i sicrhau fod y 'peiriant' yn gweithio'n effeithiol ac nid yw tîm Aberystwyth ddim gwahanol. Gall holl ardal Tal-y-bont ymfalchïo yn llwyddiant diweddar tîm Aberystwyth gan fod Andrew Lewis, y brodyr Rhys a Rhodri Richards, Iolo Davies a Steffan Nutting i gyd wedi cynrychioli'r tîm cyntaf yn ystod y tymor. Bu'r asgellwyr Rhys a Rhodri ymysg prif sgorwyr y tîm cyntaf gyda Steffan hefyd yn cael y fraint o fod yn gapten y tîm ieuenctid. Dau arall sydd â chysylltiadau teuluol agos â'r ardal ac sydd wedi serenni dros y clwb yn ystod tymhorau diweddar yw Paul Stubbs, sydd yn is-gapten y tîm cyntaf, ac Arwel Lloyd. Mae'r chwaraewyr Rob Edwards a Sion Summers yn ddau arall sydd yn wynebau cyfarwydd iawn yn Nhalybont.

Roedd tymor 2009/10 yn un hanesyddol i'r Clwb gan ei bod yn cystadlu ar y lefel uchaf erioed yn ei hanes yn Ail Gynghrair y Gorllewin, Undeb Rygbi Cymru, yn erbyn rhai o enwau traddodiadol mwyaf blaenllaw a hanesyddol rygbi Cymru megis Maesteg, Cydweli a Dyfnant. Wedi dyrchafiad yn ystod tymor 2008/09 mesur llwyddiant y clwb byddai medru cystadlu ac aros yn yr ail adran. Ar ôl tymor hir a chaled dyna fu hanes Aber.

Roedd yna ambell i uchafbwynt ar hyd y ffordd gan gynnwys ennill gartref ac oddi gartref yn erbyn Cydweli, a orffennodd y tymor yn



bedwerydd yn y gynghrair yn ogystal â churo BP Llandarcy a orffennodd yn drydydd a Waunarlwydd a orffennodd yn ail gartref - mae yna ddigon i fod yn bositif yn ei gylch am dymor nesaf!

Mae teulu Eurfan a Tŷ Ni yn falch iawn o lwyddiant Eifion ac maent ymysg cefnogwyr mwyaf brwd a selog Aberystwyth. Mae Tara, cariad Eifion, yn ddigon bodlon hefyd bod yna addurniad newydd ar y dreser i'w ddwstio yng Nghraig y Delyn!

Eifion yw un o chwaraewyr mwyaf 'aeddfed' carfan tîm cyntaf Aberystwyth erbyn hyn ond pwy a ŵyr gyda pharhad ar ei lwyddiant personol a'r tîm, efallai bydd hynny'n ddigon i'w ysgogi i ddal ati am dymor neu ddau arall!

*Gerwyn Jones*